

2019 Rhif (Cy.)

2019 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

**Gorchymyn Cefnffordd yr A4076
(Pont Fadlen, Hwlfordd, Sir
Benfro) (Gwahardd Cerbydau,
Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro)
2019**

**The A4076 Trunk Road (Merlin's
Bridge, Haverfordwest,
Pembrokeshire) (Temporary
Prohibition of Vehicles, Cyclists &
Pedestrians) Order 2019**

Gwnaed 11 Chwefror 2019

Made 11 February 2019

Yn dod i rym 15 Chwefror 2019

Coming into force 15 February 2019

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd yr A4076, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A4076 Trunk Road, are satisfied that traffic on a specified length of the trunk road should be prohibited because of works proposed on or near the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by sections 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Enwi, Cychwyn a Dehongli

Title, Commencement and Interpretation

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A4076 (Pont Fadlen, Hwlfordd, Sir Benfro) (Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro) 2019 a daw i rym ar 15 Chwefror 2019.

1. The title of this Order is the A4076 Trunk Road (Merlin's Bridge, Haverfordwest, Pembrokeshire) (Temporary Prohibition of Vehicles, Cyclists & Pedestrians) Order 2019 and it comes into force on 15 February 2019.

2. Yn y Gorchymyn hwn:

2. In this Order:

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 19:00 o'r gloch ar 15 Chwefror 2019 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

"the trunk road" ("*y gefnffordd*") means the A4076 Haverfordwest to Milford Haven Trunk Road at Dredgeman Hill, Haverfordwest, Pembrokeshire that extends from its junction with Old Hakin Road (Glen View) to its junction with Avallenau Drive;

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c.27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw Cefnffordd yr A4076 Hwlffordd i Aberdaugleddau yn Dredgeman Hill, Hwlffordd, Sir Benfro sy’n ymestyn o’i chyffordd ag Old Hakin Road (Glen View) hyd at ei chyffordd ag Avallenau Drive.

Gwaharddiadau

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd ar y darn o’r gefnffordd.

4. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal ar y darn o’r gefnffordd.

5. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, fynd ar y darn o’r gefnffordd.

Cymhwys

6. Nid yw’r gwaharddiadau yn erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y mae arwyddion traffig yn eu dangos.

Cyfnod Para’r Gorchymyn hwn

7. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

11 Chwefror 2019

Richard Morgan
Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means the period commencing at 19:00 hours on 15 February 2019 and ending when the temporary traffic signs are permanently removed.

Prohibitions

3. No person may, during the works period, drive any vehicle on the length of the trunk road.

4. No person may, during the works period, ride any pedal cycle on the length of the trunk road.

5. No pedestrian may, during the works period, proceed on the length of the trunk road.

Application

6. The prohibitions in articles 3, 4 and 5 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

Duration of this Order

7. The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed under authority of the Minister for Economy and Transport, one of the Welsh Ministers.

Dated the

11 February 2019

Richard Morgan
Head of Planning, Asset Management and Standards
Welsh Government

GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A4076 (PONT FADLEN, HWLFFORDD, SIR BENFRO) (GWAHARDD CERBYDAU, BEICWYR A CHERDDWYR DROS DRO) 2019

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A4076, neu gerllaw iddi, yn Dredgeman Hill, Pont Fadlen, Hwlffordd, Sir Benfro.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro bob cerbyd, beiciwr a cherddwr rhag mynd ar y darn o gefnffordd yr A4076 sy'n ymestyn o'i chyffordd ag Old Hakin Road (Glen View) hyd at ei chyffordd ag Avallenau Drive, Hwlffordd.

Y llwybr arall ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r de fydd mynd ar yr A4076 tua'r gogledd i Gylchfan Sgwâr Salutation, tua'r dwyrain ar yr A40 i Gylchfan Pont Canaston, tua'r de ar yr A4075 i Cross Hands, tua'r dwyrain ar yr A4115 i Dredemel, tua'r de ar yr A478 i Gylchfan Cilgeti, tua'r gorllewin ar yr A477 i Gylchfan Waterloo, Doc Penfro a thua'r gogledd ar yr A477 i Gylchfan Sunnycroft, Johnston i ailymuno â'r A4076 tua'r gogledd/de: i'r gwrthwyneb ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r gogledd.

Darperir trafndiaeth leol am ddim i gerddwyr a beicwyr yn ystod cyfnod para'r gwaith.

Disgwylir y bydd y gwaharddiadau dros dro, y codir arwyddion priodol yn eu cylch, yn dod i rym am 19:00 o'r gloch ar 15 Chwefror 2019 ac yn parhau mewn grym tan 06:00 o'r gloch ar 18 Chwefror 2019, neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod y cyfnod a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad ymlaen llaw am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar www.llyw.cymru (Detholer: Deddfwriaeth/ Is-ddeddfwriaeth/ Offerynnau statudol lleol/ Gorchymynion traffig dros dro/ 2019).

THE A4076 TRUNK ROAD (MERLIN'S BRIDGE, HAVERFORDWEST, PEMBROKESHIRE) (TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES, CYCLISTS & PEDESTRIANS) ORDER 2019

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984 which is necessary to undertake works on or near the A4076 trunk road at Dredgeman Hill, Merlin's Bridge, Haverfordwest, Pembrokeshire.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all vehicles, cyclists and pedestrians from proceeding on the length of the A4076 trunk road that extends from its junction with Old Hakin Road (Glen View) to its junction with Avallenau Drive, Haverfordwest.

The alternative route for southbound vehicles will be via the northbound A4076 to Salutation Square Roundabout, eastbound A40 to Canaston Bridge Roundabout, southbound A4075 to Cross Hands, eastbound A4115 to Templeton, southbound A478 to Kilgetty Roundabout, westbound A477 to Waterloo Roundabout, Pembroke Dock and northbound A477 to Sunnycroft Roundabout, Johnston to rejoin the north/southbound A4076: vice versa for northbound vehicles.

Free local transport will be provided for pedestrians and cyclists for the duration of the works.

It is expected that the temporary prohibitions, which will be signed accordingly, will come into force at 19:00 hours on 15 February 2019 and remain in force until 06:00 hours on 18 February 2019 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to operate during the period specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Advance notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at www.gov.wales (Select: Legislation/ Subordinate Legislation/ Local Statutory Instruments/ Temporary Traffic Orders/ 2019).

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn
oddi wrth: Y Gangen Orchmynion,
Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc
Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

M D BURNELL
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**A copy of this Notice in larger print can be
obtained from Orders Branch, Transport,
Welsh Government, Cathays Park, Cardiff
CF10 3NQ.**

M D BURNELL
Transport
Welsh Government